

ColegauCymru
CollegesWales

# GOFYNION POLISI COLEGAUCYMRU AR GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU

## THEMA 4: GWELL YMGYSYLLTIAD SGILIAU A BUSNES INSTEAD OF SGILIAU AC YMGYSYLLTU BUSNES GWELL

Mawrth 2021

BRIFF COLEGAUCYMRU

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ehangu Thema 4 *Llwyddiant Pellach: Argymhellion Polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru mewn Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes yng Nghymru* ColegauCymru. Ynghyd â'n hadroddiad *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru*, mae'r dogfennau hyn yn cyflwyno gweledigaeth a gweithredu ymarferol ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.[1]

## Crynodeb

Mae ColegauCymru yn amlygu'r angen i ddatblygu sgiliau ac ymgysylltu busnes gwell. I gefnogi hyn, dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

- Sicrhau bod cynllunio sgiliau a chymorth busnes cwmnïau wedi eu cysylltu a'u cydlynu'n fwy parhaus mewn amgylcheddau ffisegol a rhithiol, gyda Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) yn gweithredu fel lleoliadau neu hybiau ar gyfer cymorth a gwasanaethau busnes fel Busnes Cymru.
- Gwella elfen sgiliau gwasanaeth Busnes Cymru trwy ddatblygu cysylltiadau agosach gydag addysg bellach gan gynnig hyfforddiant hyblyg, wedi ei achredu ar gyfer perchnogion BBaCh a'u staff.
- Sefydlu Canolfan ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol i wella proffesiynoldeb deuol, cryfhau cydweithredu rhwng busnes a SABau a chefnogi cymhwyso arloesedd yn ymarferol a darparu mynediad at dechnoleg newydd, yn arbennig gan BBaCh, a chryfhau cadwyni cyflenwi rhwng BBaChau a chwmnïau angori.
- Ailasesu effaith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, y Bwrdd Cynghori Prentisiaethau a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru ac a ellir symleiddio'r swyddogaethau hyn neu eu gwneud yn fwy effeithiol, o fewn neu gan sefydliadau eraill o bosibl. Yn amodol ar yr asesiad hwn, yn y dyfodol, bydd yn rhaid i gyrff o'r fath gael cylch gorchwyl clir a thryloyw a gweithdrefnau llywodraethu effeithiol i ganiatáu cyngor cynllunio annibynnol ac yn seiliedig ar dystiolaeth i ysgolion, colegau a phrifysgolion, yn ogystal â datblygiad prentisiaethau.

## Cysylltu busnes a sgiliau yn barhaus, gan ddefnyddio gwasanaethau addysg bellach a chyngor busnes

Cyn pandemig COVID-19, nododd *Size Analysis of Active Businesses in Wales* Rhagfyr 2019 yr ancangyfrifir bod tua 267,000 o fentrau'n weithredol yng Nghymru, yn cyflogi tua 1.2 miliwn o bobl. Roedd y rhan fwyaf o'r mentrau gweithredol yn BBaCh (y rheiny â 0-249 o gyflogeion), yn rhoi cyfrif am 99.4% o gyfanswm y mentrau yng Nghymru yn 2019. Roedd microfentrau (0-9 o gyflogeion) yn rhoi cyfrif am 95.0% o gyfanswm y mentrau yng Nghymru.[1] Bydd COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol ar fusnesau a'r economi, ac mae'n annhebygol y byddwn yn gallu mesur graddau llawn hyn am beth amser. Fodd bynnag, gwyddom fod nifer fawr o bobl wedi cael eu diswyddo ac y bydd angen iddynt ailhyfforddi neu ailsgilio er mwyn dychwelyd i'r gweithlu. Mae hyn yn gwneud mater sgiliau a hyfforddiant ar gyfer busnesau ac unigolion yn bwysicach nag erioed, yn cynnwys, yn hanfodol, y rôl y gall y sector Addysg Bellach ei chwarae.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddatblygu'r ddealltwriaeth o addysg bellach a nodwyd yn *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* ym Medi 2017, oedd yn cydnabod *"Yn hanesyddol, mae addysg bellach yng Nghymru wedi cael ei ddarparu o fewn cymunedau, ac wedi darparu cyfleoedd i unigolion ddatblygu ac i wireddu eu huchelgais. Heddiw, maent yn cynnig ystod ehangach nag erioed o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd, a hynny mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf o fewn cymunedau. Wrth i'r amrywiaeth o rolau y gall pobl ddisgwyl eu chwarae yn ystod eu bywyd gwaith gynyddu, bydd cysylltu cyfraniad y colegau ag anghenion pobl a busnesau yn bwysicach nag erioed"*.[2] Byddai'r cysylltiadau hyn rhwng addysg bellach, busnes a dinasyddion yn cael budd o berthynas agosach gyda darpariaeth y llywodraeth o gyngor busnes trwy Busnes Cymru a'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio, sydd yn rhan bwysig o Busnes Cymru.

Mae gwefan Busnes Cymru yn cynnwys 'Sgiliau a Hyfforddiant' fel un o chwe maes allweddol ar ei dudalen lanio sydd yn gadarnhaol.[3] Fodd bynnag, cred ColegauCymru y gellir integreiddio sgiliau a hyfforddiant ymhellach i gynigion Busnes Cymru i'r dyfodol, ac mae hyn yn cynnwys Cyswllt Ffermio lle mae o leiaf un coleg addysg bellach wedi cael budd o gymorth.[4] Er y bydd cymorth busnes rhithiol yn parhau'n hanfodol yn y byd ôl COVID-19, os byddwn yn dychwelyd i gyngor sydd yn cael ei ddarparu wyneb yn wyneb, dylid ystyried cydleoli gwasanaethau ffisegol. Mae campysau addysg bellach yn cynnig llawer mwy o botensial yma gyda lleoliadau ar draws Cymru. Mae'r ddolen i Ganolfannau Rhanbarthol o adran 'Amdanom Ni' Busnes Cymru o'r wefan wedi torri ar hyn o bryd

---

[1] Stats Cymru, Size Analysis of Active Businesses in Wales 2019 (Rhagfyr 2019), https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/size-analysis-active-businesses-2019-503.pdf

[2] Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2017), tud. 17, Crynodeb Sicrhau Dyfodol Cymru (llyw.cymru)

[3] https://businesswales.gov.wales/

[4] Mae Cyswllt Ffermio yn flaenorol wedi cefnogi ystod eang o opsiynau hyfforddiant, gweler: Cymhorthdal ar gael ar gyfer cyrsiau achrededig Cyswllt Ffermio | Busnes Cymru (llyw.cymru).

ond mae cyfle yn y dyfodol i ddefnyddio adnoddau fel hyn i ddod â chymorth busnes a sgiliau ynghyd ar-lein ac yn ffisegol.[5]

Gwnaeth adroddiad FSB Cymru, *Cymru Fedrus*, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, sawl argymhelliad mewn perthynas â Busnes Cymru a chymorth ar gyfer BBaCh, er enghraifft, yn ymwneud â datblygu cynlluniau hyfforddiant.[6] Mae hwn yn faes lle gallai colegau addysg bellach ddarparu mewnbwn defnyddiol, ar y cyd â darparwyr preifat perthnasol. Amlygodd adroddiad FSB, o ran darparwyr sector cyhoeddus, mai colegau addysg bellach oedd y darparwyr oedd wedi eu graddio uchaf, sydd yn awgrymu potensial cadarnhaol i ddatblygu ar y sylfaen hwn.

Yn sicr, gallai staff perthnasol yn Busnes Cymru a cholegau addysg bellach gydweithio'n agosach ar sail ffurfiol ac anffurfiol i ddatblygu dealltwriaeth well ar y cyd o'r gwasanaethau y mae'r ddau yn eu darparu, ond mae potensial i fynd y tu hwnt i hyn. Dangosodd yr adroddiad annibynnol diweddar a gynhyrchwyd ar gyfer ColegauCymru, *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru*, botensial addysg bellach dros y tymor canolig a'r hirdymor, trwy'r rhwydwaith o gampysau, i ddefnyddio arbenigedd addysgol a sefydliadol i gynorthwyo'r gwaith o ddiwygio'r galw am lafur. Mae'r llwybrau ar gyfer hyn yn cynnwys ehangu categorïau galwedigaethol a chydlynu cymunedau busnes lleol.[7] Er bod yr adroddiad yn amlygu na all addysg bellach ddatrys materion economaidd ar ei phen ei hun, yn amodol ar adnoddau ychwanegol, mae potensial sylweddol i golegau, busnesau a rhanddeiliaid eraill weithio gyda'i gilydd ar sail ardal i wella lefelau ac ansawdd y galw am lafur. Byddai hyn yn datblygu'r berthynas sydd eisoes yn bodoli ar draws ardaloedd.

Mae'r adroddiad *Galluogi Adnewyddu* yn rhoi sylwadau manylach ar y sefyllfa bresennol a dyfodol hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod hyfforddiant yn gweithio er budd y cyflogwr a'r cyflogai. Mae angen i gymwysterau fod yn hyblyg ac wedi eu hachredu lle y bo'n bosibl. Dangosodd ymchwil flaenorol gan ColegauCymru yr hoffter o hyfforddiant mewnol gan gyflogwyr BBaCh.[8] Fodd bynnag, oherwydd COVID-19, mae darpariaeth dysgu ar-lein wedi cael ei ehangu, a gallai fod yr un mor ddeniadol gan ei bod yn lleihau/dileu'r angen i deithio ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru fuddsoddi mewn colegau addysg bellach er mwyn parhau i ddatblygu hyfforddiant hyblyg, achrededig mewn partneriaeth â BBaCh yn y tymor mwy uniongyrchol, tra'n mynd i'r afael â'r materion tymor canolig i hirdymor a nodir yn yr Adroddiad *Galluogi Adnewyddu*. Yn yr un modd, dylai dyfodol Busnes Cymru, yn cynnwys yr elfen sgiliau, gynnwys integreiddio agosach â'r sector addysg bellach a darparwyr hyfforddiant.

---

[5] [Busnes Cymru | Busnes Cymru (llyw.cymru)](#)
[6] FSB Cymru, Cymru Fedrus (Rhagfyr 2018)
[7] John Buchanan et al., *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru*, 2021, https://www.colegau.cymru/image/publications/reports/Enabling%20Renewal%20-%20FE/Enabling%20Renewal%20-%20FE.pdf
[8] Gweler Mark Lang, David Pickernell, Celia Netana, a Simon Thomas, *Gammon, Egg and Chips in a Pub Night After Night*, ColegauCymru (2017).

# Sefydlu Canolfan ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (VET)

Gan ddysgu o arfer gorau rhyngwladol, gallai Cymru gael budd o sefydliad cenedlaethol â ffocws wedi ei neilltuo i addysg a hyfforddiant galwedigaethol, sydd hefyd yn galluogi staff i gynnal eu sgiliau proffesiynol yn y byd go iawn.  Mae'r cysyniad o 'broffesiynoldeb deuol', lle mae gwybodaeth sylweddol, dealltwriaeth gysyniadol ac arbenigedd mewn addysg a dysgu yn cael eu cyfuno â gwybodaeth a sgiliau arbenigol ar bwnc, yn cael ei godi'n aml ac mae'n bryd nawr i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu'n ymarferol i'w wella.  Gallai'r swyddogaeth yma ffurfio egwyddor ganolog o Ganolfan ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol.

Wrth sefydlu Canolfan o'r fath, gallai Cymru ddatblygu enghreifftiau o Wlad y Basg, *Tknika* yn benodol.  Mae *Tknika* yn ganolfan sydd yn cael ei hyrwyddo gan Ddirprwy Weinidog Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Adran Addysg Llywodraeth y Basg gydag arloesi ac ymchwil gymhwysol yn greiddiol iddi.  Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei modelu ar rai o ganolfannau hyfforddiant galwedigaethol mwyaf datblygedig y byd, trwy rwydweithio a chyfranogiad uniongyrchol gan staff addysgu Hyfforddiant Galwedigaethol y Basg, yn datblygu prosiectau arloesol ym meysydd technoleg, addysg a rheolaeth.[9]  Mae *Tknika* yn ceisio lleihau'r bwlch rhwng cyflwyno technoleg newydd neu arloesi a'r amser y mae'n ei gymryd i arferion newydd gael eu haddysgu mewn coleg technegol.  Mae rhwydwaith ategol *Tkgune* yn rhwydwaith sydd wedi ei ffurfio gan ganolfannau hyfforddiant galwedigaethol i hwyluso trosglwyddo gwybodaeth mewn dau gyfeiriad rhwng canolfannau a chwmnïau.[10]  Fel Cymru, mae llawer o'r busnesau sydd yn cael eu gwasanaethu yn y cydweithrediad hwn yn ficrogwmnïau.

Yn y blynyddoedd diweddar, nododd ymweliadau â Rhanbarth y Basg, yn cynnwys *Tknika*, gan gynrychniolwyr o'r sector addysg ôl-16 yng Nghymru (addysg bellach, addysg uwch, Llywodraeth Cymru, Estyn a NUS Cymru) er mwyn deall y cyd-destun gweithredol, yr ymagwedd strategol tuag at VET yn rhanbarth y Basg yn gyffredinol.  Yn yr un modd, roedd y dull (*Tknika*) a grëwyd i weithredu'r newid yn drawiadol.  Y prif wahaniaeth oedd y gallu i safoni cyd-destun addysg ac addysgeg i greu safon genedlaethol.  Mae hyn wedi galluogi'r sector cyfan i ymateb yn gyflym i ofynion sgiliau newidiol.  Byddai'r broses bresennol o ddiffinio a datblygu safonau proffesiynol a rhwydweithiau proffesiynol, sydd eisoes ar waith yng Nghymru, yn elwa ar gydlyniant canolog cyflwyno gyda model fel *Tknika* ac yn cysylltu ag argymhellion polisi ColegauCymru ar wella gallu a chwmpas y gweithlu addysg bellach.

Mae'r ffocws ar uwchsgilio ac ailsgilio staff galwedigaethol yn barhaus mewn arferion diwydiant yn ogystal ag addysgu, gan greu dysgwyr â'r wybodaeth ddiweddaraf, gan ymateb i anghenion busnes, BBaCh yn arbennig, yn cryfhau'r cydweithredu rhwng colegau yn ogystal â rhwng colegau a chyflogwyr.  Byddai hyn, ynghyd â phwyslais ar gymhwyso arloesedd a mynediad yn ymarferol i dechnoleg newydd, o fudd i Gymru dros y tymor hwy, gan roi cyfleoedd i gryfhau cadwyni cyflenwi rhwng BBaCh a chwmnïau angori.  Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddatblygu gwybodaeth bresennol a

[9] Gweler 'About Tknika', About Tknika – Tknika
[10] Tkgune, TKgune - Innovation and Technology Transfer Network

gasglwyd o Wlad y Basg ac enghreifftiau perthnasol eraill a buddsoddi mewn sefydlu Canolfan Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ar gyfer Cymru. Dylid ystyried mabwysiadu ymagwedd debyg yng Nghymru, ynghyd â diwygio darpariaeth cymwysterau lefel 4 a 5, gyda'i gilydd fel cam arwyddocaol ymlaen yn trawsnewid canlyniadau mewn addysg alwedigaethol a thechnegol. Bydd hefyd yn cefnogi datblygiad y gweithlu addysg bellach, sydd yn bwnc yr eir i'r afael ag ef yng nghyfarwyddyd rhif pump.

## Ailasesu effaith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru

Nid oes gan un asiantaeth yr ateb i'r heriau economaidd, cymdeithasol a sgiliau y mae Cymru'n eu hwynebu ac mae'n iawn bod partneriaethau o wybodaeth a phrofiad perthnasol yn cael eu datblygu. Mae graddfa'r her i ailddiffinio arferion gwaith yn y sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus wedi cael ei gofnodi'n helaeth. Mae her ddeuol yr hyn a elwir yn Ddiwydiant 4.0 yn ogystal â'r broblem sydd wedi ei sefydlu o dâl isel ac ansicrwydd swyddi yn gwneud hyn yn yn flaenoriaeth bwysig.[11] Mae wedi cael ei gydnabod na fydd cyflenwi mwy neu lefel uwch o sgiliau ynddo'i hun yn helpu i drawsnewid busnesau neu gymunedau. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem ddybryd hon, dylid addasu'r partneriaethau presennol i archwilio'r ffordd y caiff llafur ei ddefnyddio yng Nghymru, yn hytrach na'r graddau y mae'r galw am lafur presennol a gofynion galwedigaethol yn mynd y tu hwnt i'r cyflenwad yn unig. Dylai unrhyw fyrddau yn y dyfodol fod yn seiliedig ar bartneriaeth gymdeithasol ddilys a chynnwys cynrychiolaeth gan gyflogai neu undeb llafur. Mae'n rhaid rhoi mwy o bwyslais ar gymwyseddau trawsbynciol ar draws cyflogwyr a sectorau cyflogaeth o fewn cyd-destun ymdopi â newidiadau ym myd gwaith. Mae cyswllt clir rhwng rôl y byrddau hyn sydd wedi eu hailffurfio a nodi'r cyswllt rhwng cymwyseddau craidd a gwybodaeth a sgiliau proffesiynol sy'n benodol i alwedigaeth sydd eu hangen gan gyflogwyr penodol. Fodd bynnag, ni ellir cyflawni hyn heb ddiwygio trwyadl ac ystyrlon a dyrannu adnoddau.

Mae colli adnoddau ar draws y DU fel Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau y DU wedi cael ei deimlo mewn amrywiaeth o feysydd, yn arbennig o ran y data sydd ar gael a'r sylwadau ar draws pedair gwlad y DU. Mae'r her a gyflwynir gan yr angen am safonau galwedigaethol cenedlaethol i hyrwyddo yn ogystal â diffinio gofynion sgiliau yn hysbys iawn yng Nghymru hefyd, yn arbennig o ran nodi Cymwyseddau Trawslin sydd yn mynd y tu hwnt i'r drafodaeth arferol o 'sgiliau meddal'. Mae'r diffyg seilwaith datblygedig yn y maes polisi hwn yng Nghymru yn awgrymu angen am strategaeth wedi ei diffinio a'i gweithredu'n well er mwyn bodloni anghenion sgiliau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n

[11] Gweler yr Athro Phil Brown, *Cymru 4.0: Cyflawni Trawsnewidiad Economaidd ar gyfer Gwell Dyfodol Gwaith*, Llywodraeth Cymru, 2019, Cyflawni Trawsnewidiad Economaidd ar gyfer Gwell Dyfodol Gwaith (llyw.cymru); a John Buchanan et al., *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru*, ColegauCymru, 2021, ar gael yn: https://www.colleges.wales/image/publications/reports/Enabling%20Renewal%20-%20FE/Enabling%20Renewal%20-%20FE.pdf

hanfodol hefyd nad yw safbwyntiau tymor byr a lleol, a safbwyntiau sydd yn cael eu tangynrychioli'n aml, yn rheoli ac yn gwyrdroi trafodaeth ehangach ar ddyfodol cyflogaeth a sgiliau technegol.

Mae Llywodraeth bresennol Cymru yn defnyddio grwpiau y mae wedi eu sefydlu i helpu i bennu blaenoriaethau sgiliau ar gyfer busnes. Mae'r rhain yn cynnwys y dair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP), Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) a Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru (WAAB). Er y gall cyfarfodydd y cyrff hyn gynnwys elfen o sensitifrwydd masnachol, oherwydd y rôl sydd ganddynt ym mholisi presennol Llywodraeth Cymru, nid oes digon o dryloywder am y grwpiau hyn ac mewn rhai achosion eu cylch gorchwyl a'u haelodaeth. Nid yw hyn yn golygu nad yw aelodau grwpiau o'r fath yn darparu swyddogaeth bwysig ond nid yw'r sefyllfa bresennol yn caniatáu digon o graffu neu asesiadau effaith ac effeithiolrwydd.

Cynhaliodd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau (EIS) y Senedd ymchwiliad i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Hydref 2019. Nododd ddau argymhelliad allweddol a 10 gweithred yn cynnwys ysgogi galw gan gyflogwyr y dyfodol am sgiliau, gan weithredu Adolygiad Graystone o fis Mawrth 2018, gwella adnoddau, yr iaith Gymraeg, ymgysylltu BBaCh yn well a'r angen i ddileu'r arfer o RSP yn gwneud argymhellion ar niferoedd dysgwyr i SABau. Derbyniodd ymateb cyfredol Llywodraeth Cymru i'r adroddiad lawer o'r canfyddiadau hyn ond gwrthododd sawl gweithred, a chreu elfen o ddryswch o ran rhai o'r rheiny yr oedd yn honni ei bod yn eu derbyn.[12]

Er gwaethaf adroddiad y Pwyllgor EIS, a'r ffocws manwl ar ddarpariaeth sgiliau yng ngoleuni COVID-19, mae gwybodaeth gyson a diweddar ar RSP yn dal yn heriol i gael gafael arnynt a chael mynediad atynt yn gyhoeddus. Nid oes unrhyw ffordd syml a chyson o gael mynediad at wybodaeth ynghylch pwy sydd yn eistedd ar bob un o Fyrddau'r RSP gyda mynediad at gofnodion a phapurau yr un mor afreolaidd.

Yn yr un modd, mae gwybodaeth am Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn brin. Mae tudalen berthnasol Llywodraeth Cymru ar y we yn dweud “Mae Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn rhoi cyngor ar gyflogaeth a sgiliau” tra bod y dudalen ‘Aelodaeth’ yn brin o fanylion yn yr un modd ac yn datgan: “Mae gan y bwrdd gynrychiolaeth o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ac yn cyfarfod bob chwarter. Mae'r aelodau yn cynnwys: cyrff cynrychioli cyflogwyr; TUC Cymru; cyflogwyr o ystod eang o sectorau; swyddogion Llywodraeth Cymru.[13] Ymddengys nad yw'r tudalennau wedi cael eu diweddaru ers mis Ebrill 2018.

Ymddengys nad oes gan Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru ei wefan ei hun na chynnwys penodol ar wefan Llywodraeth Cymru. Nododd papur i Gyngor Adnewyddu Economaidd Llywodraeth Cymru o fis Hydref 2018 fod Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru (WAAB), sy'n gweithredu o dan nawdd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB), yn darparu “mewnbwn strategol a her gadarn i ffurfio sgiliau prentisiaethau i'r dyfodol”, gan fynd ymlaen i nodi bod “WAAB yn cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Gweithredol CBI Cymru, gan ddod â chyflogwyr, cynrychiolwyr cyflogwyr a phartneriaid

---

[12] Gweler yr ymateb i Weithred 2 sydd wedi ei gofnodi i fod wedi cael ei ‘dderbyn’ ond mewn gwirionedd mae ond yn derbyn y cyfeiriad at wybodaeth am faglau sgiliau isel. Mae cydran hanfodol ysgogi galw wedi ei ddiystyru.

[13] Gweler: https://gov.wales/wales-employment-and-skills-board a https://gov.wales/wales-employment-and-skills-board/membership

cymdeithasol ynghyd i roi mewnwelediad ar bolisi a chyflawni o ystod o safbwyntiau". Mae aelodaeth WAAB wedi ei nodi yn y papur hwnnw i gynnwys Cyflogwyr Craidd – Dau gyflogwr wedi eu henwebu o bob rhanbarth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol – 6 i gyd (mae'n rhaid cynnwys cydbwysedd cyfartal o BBaCh a busnesau mawr o bob rhanbarth); Aelodau eraill – Cymwysterau Cymru, Conffederasiwn Diwydiant Prydain, Cyngres yr Undebau Llafur, Ffederasiwn Busnesau Bach, Cyngres Undebau Llafur Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Chwarae Teg; cyflogwyr ychwanegol a chynrychiolwyr sector i fynychu yn ôl yr angen.[14]

Cadarnhaodd craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 20 Ionawr nad oes unrhyw gynnydd mewn cyllid i RSP presennol ond efallai y bydd pedwerydd RSP, yn cynnwys canolbarth Cymru yn benodol, yn cael ei sefydlu gan gyllid ar wahân.[15] Er mwyn i RSP weithredu fel dull effeithiol o gynhyrchu sgiliau, bydd lefelau cyllid presennol yn annigonol i gyflawni hyn, heb sôn am bedwerydd RSP. Yn eu tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor EIS i RSP, mynegodd FSB Cymru bryderon yn ymwneud â lefel y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael i RSP wneud gwaith ystyrlon gyda BBaCh ac nid yw'n glir a yw'r pryderon hyn wedi cael eu trin a'u hunioni yn ddigonol.[16]

Yng ngoleuni'r wybodaeth uchod, mae ColegauCymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i adolygu swyddogaethau RSP, WESB a WAAB er mwyn asesu a ydynt yn addas at y diben wrth i Gymru adael yr argyfwng COVID-19. Dylai adolygiad o'r fath ystyried a ellir symleiddio swyddogaethau'r grwpiau neu eu gwneud yn fwy effeithiol, o bosibl o fewn neu gan sefydliadau eraill. Yn y dyfodol, bydd yn rhaid i bob grŵp o'r fath gael cylch gorchwyl clir, sydd ar gael yn gyhoeddus a gweithdrefnau llywodraethu tryloyw, effeithiol. Bydd hyn yn caniatáu cyngor cynllunio annibynnol yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ysgolion, colegau a phrifysgolion yn ogystal â datblygu prentisiaethau.

## Cymharu meincnodau rhyngwladol a chystadleuaeth

Ar adeg pan mae'r seilwaith busnes a sgiliau yng Nghymru o dan fwy o bwysau nag erioed, mae gallu Cymru fel cenedl i ymgysylltu ac yn wir cystadlu yn Ewrop a thu hwnt o dan fygythiad parhaus. Mae meincnodi rhyngwladol ar draws amrywiaeth o bynciau yn hanfodol i ddeall y sefyllfa newidiol ar draws y byd ac i gydnabod y ffordd orau i Gymru addasu a manteisio ar ein cryfderau fel gwlad.[17] Mae Cymru yn dal yn llai cystadleuol na llawer o ranbarthau'r DU ac Ewrop yn ehangach. Mae dealltwriaeth dda o'r heriau o ran cystadlu a gall ystyriaethau pwysig eraill gael eu hanwybyddu yn aml oherwydd ffocws ar fetrig unigol fel Cynnyrch Domestig Gros neu GVA. Fodd bynnag, gall systemau addysg (a systemau galwedigaethol yn arbennig) ynghyd â mesurau cyflogaeth a'r farchnad lafur gyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae'r ymagwedd

[14] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/council-for-economic-development-october-18-apprenticeships.pdf, tudalen 2.
[15] Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau 20/01/2021 – Senedd Cymru (cynulliad.cymru)
[16] 10. Ffederasiwn Busnesau Bach.pdf (senedd.cymru)
[17] Gweler, er enghraifft, https://www.imd.org/news/updates/IMD-2020-World-Competitiveness-Ranking-revealed/ am ddadansoddiad o gystadleuaeth economaidd ddiweddar ac ymatebion i Covid.

hon wedi bod yn glir o ran y rhaglenni cyllid strwythurol niferus a'r rhaglenni a sefydlwyd i gysylltu'r galw yn y farchnad lafur, amodau masnachu lleol yn ogystal â chystadleuaeth ryngwladol.

Ynghyd â'r amharu â marchnadoedd rhyngwladol, effaith ychwanegol Brexit yw peidio gallu cymryd rhan mewn rhwydweithiau Ewropeaidd yn ymwneud â mentrau VET, fel EQAVET, yr EQF a'r ystod eang o adroddiadau a'r dadansoddiadau cymharol a gynhyrchir gan Cedefop.[18] Mae hyn yn ogystal â cholli mynediad at gynllun Erasmus+, sydd yn bwysig i rhoi myfyrwyr mewn cysylltiad ag arferion busnes a galwedigaethol tramor. Yn yr un modd, mae cymryd rhan barhaus yn y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd a gydnabyddir yn rhyngwladol yn rhan annatod o sicrhau y gellir meincnodi system addysg dechnegol Cymru yn erbyn fframweithiau cymwysterau Ewropeaidd eraill ac, felly'n dal yn cyd-fynd â'r rheiny a ddefnyddir gan gwmnïau rhyngwladol sydd eisiau buddsoddi yng Nghymru ac i gefnogi'r busnesau cynhenid niferus, llai, sydd yn dibynnu ar gymryd rhan mewn cadwyni cyflenwi rhyngwladol. Gallai methiant ar ran Llywodraeth nesaf Cymru i gymryd rhan lawn ac effeithiol mewn rhwydweithiau rhyngwladol arwain at y system addysg alwedigaethol a thechnegol ddomestig yn datblygu ar gyflymder ac mewn cyfeiriad gwahanol i safonau rhyngwladol a galw byd-eang. Nawr bod y DU, yn cynnwys Cymru, yn 'drydedd wlad' at ddibenion yr Undeb Ewropeaidd, mae angen eglurder am effeithiau rheolau'r trydydd gwledydd hyn ar agweddau gwahanol ar yr economi ac addysg yng Nghymru. Yn yr un modd, mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod unrhyw gynlluniau yn lle Erasmus+, yn cynnwys Cynllun Turing, yn cynnig yr un lefel o fynediad a chyfle ar gyfer dysgwyr addysg bellach.

Yn ogystal â cheisio ymateb i alw cyflogwyr lleol, dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i ddarparu adnoddau ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol rhwng ei system sgiliau a'r hyn sydd o fewn Ewrop, yn ddwyochrog a thrwy rwydweithiau cydweithredol. Dylai Llywodraeth Cymru ei wneud yn ofynnol i rhyngwladoli'r cwricwlwm addysg ymhellach yng Nghymru, gan ddarparu'r adnoddau angenrheidiol, yn benodol y gydran alwedigaethol a thechnegol. Er mwyn cefnogi busnesau a chyflogwyr lleol, yn y sectorau preifat a chyhoeddus, dylai'r Llywodraeth sydd yn cael ei chyflwyno yng Nghymru sicrhau bod meincnodi sgiliau rhyngwladol yn llywio'r strategaeth hon. Mae hyn yn cynnwys ei wneud yn ofynnol i reoleiddwyr ac asiantaethau sicrhau ansawdd roi cyfrif llawn am y gofynion sgiliau ar weithlu Cymru, ac i'r rhain gael eu deall a'u trin o fewn cyd-destun rhyngwladol.

[18] Gweler, er enghraifft, Cedefop | European Centre for the Development of Vocational Training (europa.eu) ; Home - Eqavet ; The European Qualifications Framework (EQF) | Europass

Y cyfarwyddyd hwn yw'r pedwerydd mewn cyfres o bump yn cwmpasu'r themâu a nodwyd yn *Llwyddiant Pellach: Argymhellion Polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru Mewn Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes ar gyfer Cymru.*

Ffôn
02920 522 500

E-bost
helo@colegaucymru.ac.uk

ColegauCymru
U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

Gwefan
www.colegau.cymru